OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3111

# Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 2005

**Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf**

**8.** Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod yn rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

(a) adran 2 (ystyr estynedig “sale” etc.);

(b) adran 3 (rhagdybio bod bwyd wedi'i fwriadu i bobl ei fwyta);

(c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 14 neu 15;

(d) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(dd) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(e) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at “any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above” yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd) uchod;

(f) adran 35(1)(cosbi tramgwyddau)(**1**) i'r graddau y mae'n berthnasol i dramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (dd) uchod;

(ff) adran 35(2) a (3) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (e) uchod;

(g) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(ng) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd)(**2**); ac

(h) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

(**1**) Diwygiwyd adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p.44), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w bennu.
(**2**) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), Atodlen 5, paragraff 16.